

## Dewch yn ffrind a cheuch fwynhau Gardd Berlysiâu'r Bontfaen yn fwy fych



Cafodd yr ardd ei sefydlu gan wirfoddolwyr ac mae bellach yn cael ei chynnal ganddyn nhw. Tra bod costau'n cael eu cadw mor isel â phosibl, mae angen rhai miloedd o bunnoedd bob blwyddyn i gadw'r ardd mewn cyflwr perffaith. Trwy fod yn Gyfaill i Ardd Berlysiâu'r Bontfaen gallwch chi helpu i sicrhau dyfodol yr ardd a bod yn rhan o'i thyfiant a'i datblygiad.

Ymhlith y buddiannau eraill, mae Cyfeillion yn derbyn cylchlythyr rheolaidd a'r newyddion diweddaraf am yr ardd; cyfleoedd i fynd ar deithiau a digwyddiadau garddwriaethol; bod yn rhan o ddigwyddiadau arbennig 'Cyfeillion yn Unig' yr ardd; cael cyfle i gyfrannu at gynllunio dyfodol yr ardd a chael llais yn y Cyfarfod Blynnyddol.

### Ffurflen Gais Aelodaeth Gardd Berlysiâu'r Bontfaen

Aelod Oedolyn Enw
Aelod ar y cyd (y ddau yn yr un cyfeiriad) Enw
Myfyriwr (mewn addysg llawn amser) Enw
Cyfeiriad

Cod Post  
E-bost:

Dosbarth Tanysgrifiad Blynnyddol	Nifer	Pris	Cyfanswm
Oedolyn		£15	£
Neu Oedolion ar y Cyd (y ddau yn yr un cyfeiriad)		£25	£
Myfyriwr (mewn addysg llawn amser)		£5	£
Cyfanswm Y Tanysgrifiad			£
Rhodd			£
Siec am £			£

*Sieciau'n daladwy i:  
Ymddiriedolaeth Gardd Berlysiâu'r Bontfaen Cyf.  
Anfonwch at: Ysgrifennydd Aelodaeth, Milestone, Penllyn,  
Y Bontfaen, CF71 7RQ*

*Gallwch dalu'ch tanysgrifiad neu gyfrannu rhodd elusenol i'r ardd ar wefan "MyDonate". Ymwelwch â [www.btplc.com/mydonate](http://www.btplc.com/mydonate) ac ewch i adran Cowbridge Physic Garden..*

### Datganiad Rhodd Cymorth

- Ticiwch un o'r blychau isod
- Ydw – rydw i'n drethdalwr yn y D.U., a hoffwn i Ymddiriedolaeth Gardd Berlysiâu'r Bont-faen Cyfyngedig drin pob cyfraniad a thanysgrifiad aelodaeth a wnaethpwyd gen i yn y pedair blynedd diwethaf ac a wneir yn y dyfodol fel Rhodd Cymorth.
  - Rydw i'n deall mai fi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw swm sy'n weddill os ydw i'n talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf na'r cyfanswm a hawliwyd ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno.
  - Na – ni allaf gyflwyno'r cyfraniad/tanysgrifiad hwn fel Rhodd Cymorth.

- Hoffwn i chi gysylltu â fi gyda manylion pellach am fod yn wirfoddolwr yng Ngardd Berlysiâu'r Bont-faen.
- Hoffwn i chi anfon manylion talu fy nhanysgrifiad trwy Archeb Sefydlog ata i. Rwy'n deall, o ganlyniad, y bydd fy nhanysgrifiad blynnyddol yn aros yr un fath am y pedair blynedd nesaf.

Llofnod

Dyddiad




COWBRIDGE  
PHYSIC GARDEN  
GARDD BERLYSIAU'R  
BONT-FAEN



## Plannwyd y syniad ganrifoedd yn ôl

## Crëwyd gardd o'goneddus â'i gwreiddiau'n gyfoethog mewn hanes yng nghanol Y Fro

Mewn llecyn cudd yng nghanol Y Bontfaen, mae'r Ardd Berlysiâu'n hafan o heddwch a llonyddwch. Mae'n adlewyrchu'r ystod eang o blanhigion a fyddai wedi cael eu tyfu mewn gerddi perlysiâu traddodiadol ar gyfer coginio, lliwio defnydd ac, yn holl bwysig, at iacháu.



Mae'r ardd, sydd wedi ei gosod ar gynllun ffurfiol, yn benllanw llafur cariad nifer o wirfoddolwyr a sefydlodd yr ardd ar safle hen ardd o'r ddeunawfed ganrif. Roedd hon yn rhan o ardd yr Hen Neuadd, cartref y teulu Edmondes. Ers 2007, mae'r ardd wedi bod ar agor i'r cyhoedd, ac o fewn ei muriau uchel mae'n cynnig arddangosfa drawiadol o liw, persawr, ansawdd a chyfaredd.

Er mai dim ond tua hanner erw (0.2ha) yw ei maint, bydd garddwyr brwd wrth eu bodd gyda'r amrwyiaeth o fathau sydd wedi eu cynnwys yma. Mae'r cynllun plannu'n adlewyrchu gerddi meddyginiaethol o'r 17eg a'r 18fed ganrif, ond mae'r canlyniad yn llawer mwy na gwrs hanes fyw. Mae'r awyrgylch dangnefeddus yn awgrymu gardd hoff a'r gofal drosti'n amlwg ar bob llaw.

Dewch i fwynhau Gardd Berlysiâu'r Bontfaen. Mae tua 12 milltir i'r gorllewin o Gaerdydd, gyferbyn ag Eglwys y Grog Sanctaidd nid nepell o'r Stryd Fawr. Mae'r llwybrau'n wastad ac mae mynediad i'r ardd yn rhwydd i ymwelwyr anabl, ac yn rhad ac am ddim i bawb. Mae'r ardd ar agor bob dydd, ar wahân i ddydd Nadolig, o 10 y bore tan 4 y prynhawn yn y gaeaf, ac o 10 y bore tan 6 y prynhawn yn yr haf.

Noddwr: EHB Duges Cernyw Llywydd: Dan Clayton-Jones  
Ymddiriedolaeth Gardd Berlysiâu'r Bont-faen Cyfyngedig  
Rhif Elusen Gofrestredig: 1110127 Rhif Cwmni: 5118600  
Swyddfa Gofrestredig: The Old School School House, Colwinston, CF71 7NE  
[www.cowbridgephysicgarden.org.uk](http://www.cowbridgephysicgarden.org.uk)

